# CYMell Project to Date Impact Statement

## September 2022 to September 2026

*Strengthening Welsh medium and bilingual Out of School Childcare across Wales*

**Funded by Welsh Government and delivered by Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

**Clybiauplantcymru.org Telephone no | Rhif Ffon: 029 2074 1000**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf, Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW

Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436

## Executive summary

### Headline impact

Since September 2022, **CYMell** has increased the number and strengthened the quality, sustainability and Welsh language capacity of Out of School Childcare settings. The project combines business development, registration support, grants, Playwork qualifications and practical Welsh language support to remove barriers for settings, staff and families.

By September 2026, recorded Welsh medium provision had grown from 246 to 288 clubs, a net increase of 42. Within this, registered Welsh medium clubs increased from 179 to 222, while the share of Welsh medium clubs that were registered rose from 73% to 77%. The project has supported 91 new Welsh medium clubs to open, although closures and a detailed sector scoping exercise mean the net increase is lower than the gross number opened.

| | | |
|---|---|---|
| **91**<br>new Welsh medium clubs opened | **57**<br>settings registered or expanded | **70**<br>CIW registration grants awarded |
| **265**<br>Playwork qualifications achieved | **240**<br>learner bursaries paid | **115**<br>clubs enrolled on Welsh Promise |

## What changed between September 2022 and September 2026

| Measure | Sep 2022 | Sep 2026 | Change |
|---|---|---|---|
| Welsh medium registered clubs | 179 | 222 | +43 |
| Welsh medium unregistered clubs | 67 | 66 | 1 |
| Total Welsh medium clubs | 246 | 288 | +42 |
| Bilingual registered clubs | 157 | 158 | +1 |
| Bilingual unregistered clubs | 19 | 16 | 3 |
| Total bilingual clubs | 176 | 174 | 2 |

## 1. Expanding access to registered childcare

CYMell has helped settings navigate registration and extend provision to children up to age 12. Project to date achievements include:

- 57 settings successfully registered with Care Inspectorate Wales (CIW) or expanded their registration to include Out of School Childcare.
- 32 Cylchoedd expanded to include Out of School Childcare, including 14 that added holiday provision.
- 70 Welsh medium and bilingual settings received a £1,000 CIW registration grant, including 34 Cylchoedd.
- Four settings received a £4,000 New Places grant to support a new Welsh language Out of School Childcare club.
- Five settings successfully changed their operational language from bilingual to Welsh and informed CIW.

### Impact for families

The expansion of afterschool and holiday provision gives families greater access to Welsh medium childcare beyond the school day and, for settings offering holiday care, beyond term time.

## 2. Developing a qualified Welsh speaking workforce

Workforce development has reduced a key barrier to registration and service growth. Through CYMell:

- 375 individuals participated in Playwork qualification delivery.
- 265 Playwork qualifications were achieved through the medium of Welsh.
- 240 bursaries were paid, enabling staff to attend training in their own time or allowing settings to fund cover during working hours.
- At the end of Quarter 2 2026 27, 27 learners remained in learning.

*"As the course progressed, I began to understand more and became more confident using Welsh."*
**Level 2 Award in Playwork Practice learner**

## 3. Embedding Welsh in everyday practice

The Welsh Promise provides a structured route for settings to build confidence and make Welsh a more natural part of children's everyday experiences. Project to date delivery includes:

- 790 Welsh language support sessions, 120 assessments and 104 evaluations.
- 115 Out of School Childcare clubs currently enrolled on the Welsh Promise.
- 81 settings achieving Bronze, 27 achieving Silver and 10 achieving Gold.
- Five settings awarded Cynnig Cymraeg recognition.
- 19 Incidental Welsh workshops delivered across 16 counties, reaching 323 attendees.

*"It has given us the confidence to try and push our Welsh language knowledge and use it every day."*

## 4. Strengthening quality, sustainability and resilience

Dedicated Welsh Language Childcare Business Development Officers have provided tailored support on registration, finance, governance, staffing, training, policies, funding and Welsh language development. This integrated approach helps settings address immediate operational issues while building longer term resilience.

- 11 settings received CYMell Sustainability grant support project to date: six Welsh medium and five bilingual settings.
- Settings received support with financial planning, systems, record keeping and cashflow forecasting.
- The updated Out of School Childcare Assessment supports self evaluation across regulation, finance, governance and staffing, alongside tailored action planning.
- A Quarter 2 scoping exercise identified new provision and closures, improving the accuracy of sector information and the evidence base for targeting support and training.

## 5. Reach, awareness and partnership working

- CYMell engaged more than 250 children and families through Welsh medium play opportunities at the National Eisteddfod in Pembrokeshire.
- Incidental Welsh workshops provided practical demonstrations, ready to use resources and peer support.

- Work with the Welsh Language Commissioner's Hybu Team strengthened recognition of the Welsh Promise Gold assessment process.
- As at 30 September 2026, 66% of settings across Wales were benefiting from Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs membership funded by the Moondance Foundation.

## 6. Evidence of difference

| Project intervention | Resulting difference |
|---|---|
| Registration and expansion grants | More settings have the capacity to complete registration work, meet standards and extend provision. |
| Business development support | Settings receive tailored help with governance, finance, policies, funding and sustainability. |
| Welsh medium Playwork qualifications and bursaries | More practitioners can gain required qualifications through Welsh, with reduced cost and staffing barriers. |
| Welsh Promise and Incidental Welsh support | Settings build confidence and increase the everyday use of Welsh with children. |
| Sector scoping and OSCA | Improved evidence supports targeted regional planning, quality improvement and action planning. |

## Conclusion

**A stronger foundation for Welsh medium Out of School Childcare** Between September 2022 and September 2026, **CYMell** combined direct setting support, targeted funding, workforce development and Welsh language improvement to expand and strengthen provision. The project has supported 91 new Welsh medium clubs to open, delivered a net increase of 42 Welsh medium clubs, supporting 57 to register with CIW, enabled 265 Playwork qualifications and built a community of 115 clubs enrolled on the Welsh Promise. Alongside these measurable outputs, the project has strengthened the systems, confidence and evidence needed to sustain high quality Welsh medium and bilingual childcare across Wales.

Source: CYMell Report Quarter 2 2026 27. Project to date figures reported to 30 September 2026

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Prosiect CYMell Project

# CYMell Datganiad Effaith y Prosiect hyd Yma: Medi 2022–2026

## Medi 2022 i Fedi 2026

*Cryfhau Gofal Plant All-Ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar hyd a lled Cymru*

**Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflawni gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

## Crynodeb gweithredol

### Prif effaith

Ers mis Medi 2022, mae **CYMell** wedi cynyddu nifer y lleoliadau Gofal Plant All-Ysgol ac wedi cryfhau eu hansawdd, eu cynaliadwyedd a'u capasiti o ran y Gymraeg. Mae'r prosiect yn cyfuno datblygu busnes, cymorth cofrestru, grantiau, cymwysterau Gwaith Chwarae a chymorth ymarferol gyda'r Gymraeg i gael gwared ar rwystrau i leoliadau, staff a theuluoedd.

Erbyn mis Medi 2026, roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gofnodwyd wedi cynyddu o 246 i 288 o glybiau, sef cynnydd net o 42. Cynyddodd nifer y clybiau cyfrwng Cymraeg cofrestredig o 179 i 222, tra cododd cyfran y clybiau cyfrwng Cymraeg a oedd wedi'u cofrestru o 73% i 77%. Mae'r prosiect wedi cefnogi agor 91 o glybiau cyfrwng Cymraeg newydd, er bod cau rhai clybiau ac ymarfer manwl i gwmpasu'r sector yn golygu bod y cynnydd net yn is na'r nifer gros a agorwyd.

**91**
o glybiau cyfrwng Cymraeg newydd wedi agor

**57**
o leoliadau wedi cofrestru neu ehangu

**70**
o grantiau cofrestru AGC wedi'u dyfarnu

**265**
o gymwysterau Gwaith Chwarae wedi'u cyflawni

**240**
o fwrsariaethau dysgwyr wedi'u talu

**115**
o glybiau wedi cofrestru ar gyfer yr Addewid Cymraeg

## Beth newidiodd rhwng mis Medi 2022 a mis Medi 2026

| Mesur | Medi 2022 | Medi 2026 | Newid |
|---|---|---|---|
| Clybiau cyfrwng Cymraeg cofrestredig | 179 | 222 | +43 |
| Clybiau cyfrwng Cymraeg heb eu cofrestru | 67 | 66 | 1 |
| Cyfanswm y clybiau cyfrwng Cymraeg | 246 | 288 | +42 |
| Clybiau dwyieithog cofrestredig | 157 | 158 | +1 |
| Clybiau dwyieithog heb eu cofrestru | 19 | 16 | 3 |
| Cyfanswm y clybiau dwyieithog | 176 | 174 | 2 |

## 1. Ehangu cyrchiad at ofal plant cofrestredig

Mae CYMell wedi helpu lleoliadau i lywio'r broses gofrestru ac ymestyn darpariaeth i blant hyd at 12 oed. Mae cyflawniadau'r prosiect hyd yma yn cynnwys:

- 57 o leoliadau wedi cofrestru'n llwyddiannus gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu wedi ehangu eu cofrestriad i gynnwys Gofal Plant All-Ysgol.
- 32 o Gylchoedd wedi ehangu i gynnwys Gofal Plant All-Ysgol, gan gynnwys 14 aeth fynd ati i ychwanegu darpariaeth gwyliau.
- 70 o leoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi derbyn grant cofrestru ag AGC o £1,000, gan gynnwys 34 o Gylchoedd.
- Pedwar lleoliad wedi derbyn grant Lleoedd Newydd o £4,000 i gefnogi clwb Gofal Plant All-Ysgol Cymraeg newydd.
- Pum lleoliad wedi newid eu hiaith weithredol yn llwyddiannus o ddwyieithog i Gymraeg ac wedi rhoi gwybod i AGC.

### Effaith ar deuluoedd

Mae ehangu darpariaeth r'ôl ysgol a darpariaeth gwyliau yn rhoi mwy o opsiynau cyrchu gofal plant cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ac, i leoliadau sy'n cynnig gofal gwyliau, y tu hwnt i'r tymor ysgol i deuluoedd.

## 2. Datblygu gweithlu cymwys sy'n siarad Cymraeg

Mae datblygu'r gweithlu wedi lleihau rhwystr allweddol i gofrestru a thwf gwasanaethau. Drwy CYMell, mae:

- 375 o unigolion wedi cymryd rhan mewn cyflwyno cymwysterau Gwaith Chwarae.
- 265 o gymwysterau Gwaith Chwarae wedi'u cyflawni drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 240 o fwrsariaethau wedi'u talu, gan alluogi staff i fynychu hyfforddiant yn eu hamser eu hunain neu alluogi lleoliadau i ariannu staff cyflenwi yn ystod oriau gwaith.
- Ar ddiwedd Chwarter 2 2026–27, roedd 27 o ddysgwyr yn parhau i ddysgu.

> *"Wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen, dechreuais ddeall mwy a dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg."*
> **Dysgwr Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae**

## 3. Gwreiddio'r Gymraeg mewn arferion bob dydd

Mae'r Addewid Cymraeg yn darparu llwybr strwythuredig i leoliadau feithrin hyder a gwneud y Gymraeg yn rhan fwy naturiol o brofiadau bob dydd plant. Mae cyflawni'r prosiect hyd yma yn cynnwys:

- 790 o sesiynau cymorth iaith Gymraeg, 120 o asesiadau a 104 o werthusiadau.
- 115 o glybiau Gofal Plant All-Ysgol ar hyn o bryd wedi cofrestru ar gyfer yr Addewid Cymraeg.
- 81 o leoliadau wedi ennill Efydd, 27 wedi ennill Arian a 10 wedi ennill Aur.
- Pum lleoliad wedi ennill cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg.
- 19 o weithdai Cymraeg Achlysurol wedi'u cyflwyno ar draws 16 o siroedd, gan gyrraedd 323 o fynychwyr.

> *"Mae wedi rhoi'r hyder i ni geisio gwthio ein gwybodaeth o'r Gymraeg ymhellach a'i defnyddio bob dydd."*

## 4. Cryfhau ansawdd, cynaliadwyedd a gwydnwch

Mae Swyddogion Datblygu Busnes Gofal Plant Cymraeg pwrpasol wedi darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer cofrestru, cyllid, llywodraethu, staffio, hyfforddiant, polisïau, ariannu a datblygu'r Gymraeg. Mae'r dull integredig hwn yn helpu lleoliadau i fynd i'r afael â materion gweithredol uniongyrchol wrth feithrin gwydnwch tymor hwy.

- 11 o leoliadau wedi derbyn cymorth grant Cynaliadwyedd CYMell hyd yma: chwe lleoliad cyfrwng Cymraeg a phum lleoliad dwyieithog.
- Cafodd lleoliadau gymorth gyda chynllunio ariannol, systemau, cadw cofnodion a rhagwelydd llif arian.
- Mae'r Asesiad Gofal Plant All-Ysgol wedi'i ddiweddaru yn cefnogi hunanwerthuso ar draws rheoleiddio, cyllid, llywodraethu a staffio, ochr yn ochr â chynllunio camau gweithredu wedi'i deilwra.
- Nododd ymarfer cwmpasu Chwarter 2 ddarpariaeth newydd a chau lleoliadau, gan wella cywirdeb gwybodaeth am y sector a'r sail dystiolaeth ar gyfer targedu cymorth a hyfforddiant.

## 5. Cyrhaeddiad, ymwybyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth

- Ymgysylltodd CYMell â mwy na 250 o blant a theuluoedd drwy gyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro.
- Darparodd gweithdai Cymraeg Achlysurol arddangosiadau ymarferol, adnoddau parod i'w defnyddio a chymorth gan gymheiriaid.
- Cryfhawyd cydnabyddiaeth o broses asesu Aur yr Addewid Cymraeg drwy weithio gyda Thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg.
- Ar 30 Medi 2026, roedd 66% o leoliadau ledled Cymru yn elwa ar aelodaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a ariannwyd gan Sefydliad Moondance.

## 6. Tystiolaeth o wahaniaeth

| Ymyrraeth y prosiect | Y gwahaniaeth o ganlyniad |
|---|---|
| Grantiau cofrestru ac ehangu | Mae gan fwy o leoliadau y capasiti i gwblhau gwaith cofrestru, bodloni safonau ac ehangu darpariaeth. |
| Cymorth datblygu busnes | Mae lleoliadau yn derbyn cymorth wedi'i deilwra gyda llywodraethu, cyllid, polisïau, ariannu a chynaliadwyedd. |
| Cymwysterau Gwaith Chwarae cyfrwng Cymraeg a bwrsariaethau | Gall mwy o ymarferwyr ennill y cymwysterau gofynnol drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda llai o rwystrau o ran cost a staffio. |
| Yr Addewid Cymraeg a chymorth Cymraeg Achlysurol | Mae lleoliadau yn meithrin hyder ac yn cynyddu'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg gyda phlant. |
| Cwmpasu'r sector ac OSC | Mae tystiolaeth well yn cefnogi cynllunio rhanbarthol wedi'i dargedu, gwella ansawdd a chynllunio camau gweithredu. |

## Casgliad

**Roedd Sylfaen gryfach ar gyfer Gofal Plant All-Ysgol cyfrwng Cymraeg** Rhwng mis Medi 2022 a mis Medi 2026, yn cynnwys cymorth uniongyrchol **CYMell** i leoliadau, cyllid wedi'i dargedu, datblygiad yn y gweithlu a gwella'r Gymraeg i ehangu a chryfhau darpariaeth. Mae'r prosiect wedi cefnogi 91 o glybiau cyfrwng Cymraeg newydd i agor, sicrhau cynnydd net o 42 o glybiau cyfrwng Cymraeg, cefnogi 57 i gofrestru gydag AGC, galluogi 265 o gymwysterau Gwaith Chwarae ac adeiladu cymuned o 115 o glybiau wedi cofrestru ar gyfer yr Addewid Cymraeg. Ochr yn ochr â'r allbynnau mesuradwy hyn, mae'r prosiect wedi cryfhau'r systemau, yr hyder a'r dystiolaeth sydd eu hangen i gynnal gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel ledled Cymru.

Ffynhonnell: Adroddiad CYMell Chwarter 2 2026–27. Ffigurau'r prosiect hyd yma wedi'u hadrodd hyd at 30 Medi 2026

Clybiauplantcymru.org Telephone no | Rhif Ffon: 029 2074 1000
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf, Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW
Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436